

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



Adroddiad cynnydd chwarterol: Cynllun Corfforaethol 2016-19

Ionawr - Mawrth 2019

Croeso.

Dyma adroddiad cynnydd terfynol 2018/2019.

Wrth i'n Cynllun Corfforaethol 2016-2019 ddod i ben rydym yn wirioneddol awyddus i ddangos y cynnydd a wnaethom dros y tri mis diwethaf.

Bu arwain ymateb y sector i'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy yn faes sylweddol o waith ac edrychwn ymlaen at weld argymhellion y panel ar 1 Mai.

Fel bob amser, rydym wedi parhau i lobio a dylanwadu ar eich rhan, a hefyd yn cynnwys adroddiad llawn ar y cyfryngau yn dangos sut y buom yn dylanwadu ar agenda'r cyfryngau.

Rydym hefyd wedi rhedeg dwy gynhadledd lwyddiannus, yn ogystal â lansio cynnig hyfforddiant Llywodraethiant newydd i'ch cefnogi i fod yn wych.

Ar ôl ymgynghori gyda chi, rydym yn falch iawn i lansio ein Cynllun Corfforaethol newydd sy'n gosod ein blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf. Bydd y meysydd gwaith hyn yn cefnogi darparu ein gweledigaeth Gorwelion Tai - Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

Rydym hefyd yn falch i gyhoeddi ein cynnig newydd sbon i aelodau, yn dangos sut y gallwch gael y budd mwyaf o'ch aelodaeth yn 2019/2020.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr wybodaeth yn yr adroddiad yma.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddylanwadu, cysylltu, cefnogi a hysbysu - fel y gallwch chithau barhau i fuddsoddi mewn cymunedau a gwella bywydau.

Stuart Ropke

Prif Weithredydd



Ein Cenhadaeth.

- **Dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi Llywodraeth Cymru.**
- **Cefnogi a hyrwyddo llais ein haelodau.**
- **Siarad gydag un llais.**
- **Rhoi aelodau yng nghanol popeth a wnawn.**
- **Gweithio fel un tîm i gyflawni ein cenhadaeth.**

Ein Nod.

Erbyn 2019 bydd aelodau yn ein hystyried yn gorff ymbarél gwerthfawr ac effeithlon iawn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth ein haelodaeth a byddwn wedi helpu i lunio'r amgylchedd allanol i'w galluogi i ffynnu.

Ni fydd y sefydliad mynd-ato ar faterion tai yng Nghymru, partner o ddewis ar gyfer rhanddeiliaid, ac yn cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan Lywodraeth Cymru fel sector sy'n cyflawni.

Bydd ein gwaith dros y dwy blynedd nesaf yn dod o fewn pedair thema strategol.

1. Cefnogi aelodau i fod yn fusnesau cryf.
2. Gtalluogi aelodau i ddarparu mwy o gartrefi o ansawdd da sydd wir yn fforddiadwy.
3. Cefnogi aelodau i adeiladu cymunedau cynaliadwy y mae pobol eisiau byn ynddynt.
4. Rhedeg sefydliad grych i aelodau.

Cipolwg ar fis Ionawr - mis Mawrth 2019

- **Gwnaed cynnydd da ar yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy, a chaiff yr argymhellion eu cyhoeddi ar 1 Mai**
- **Rydym wedi lansio cynllun Prif Awdurdod Tân partneriaeth cydlynol fel rhan o'r cynnig newydd i aelodau ar gyfer 2019**
- **Fe wnaethom gynnal dwy gynhadledd lwyddiannus gyda'r nifer uchaf erioed o gynrychiolwyr**
- **Fe wnaethom lansio pecyn hyfforddiant newydd sbon ar Lywodraethiant ar gyfer ein sector**
- **Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd cyffrous ar gyfer 2019-2022 a Chynnig Aelodau 2019/209 yn awr yn fyw**
- **Mewn partneriaeth gyda Charity Job Finder, fe wnaethom lansio Swyddi Tai Cymru - safle tai cymdeithasol cyntaf Cymru**
- **Ynghyd â'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Gogledd Iwerddon, fe wnaethom lansio ein hymgyrch 'chwech peth' i lobio am newidiadau i'r polisi Credyd Cynhwysol.**

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Adolygiad o Dai Fforddiadwy

Mae ein gwaith ar yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy wedi parhau'n gyson ar hyd tri mis cyntaf y flwyddyn. Wrth i'r panel ystyried y Galwad am Dystiolaeth a Chynigion pob un o'r ffrydiau gwaith, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r panel a hefyd Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar yr argymhellion ynghyd â'n tair thema o sicrwydd, hyblygrwydd a chydweithio.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad ag aelodau drwy'r cyfan, a byddwn yn dod â thrafodaethau pellach i'n Grwpiau Cyflenwi Strategol drwy gydol mis Ebrill.

Bydd panel yr Adolygiad yn cyhoeddi eu hargymhellion ar 1 Mai.

Gallwch ganfod mwy am ein hymateb **yma**.



Cyfarwyddydd Cynorthwyol Polisi a Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themâu:

- 1.
- 2.
- 3.

Cynllunio

Rydym wedi sefydlu gweithgor i gwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW). Bydd y grŵp yn ymchwilio ffyrdd i wella gweithio rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau cynllunio lleol, gan ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a gafodd eu dynodi gan aelodau.

Cafodd aelodau CCC y cyfle i fwydo i astudiaeth a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu gwasanaethau cynllunio awdurdodau lleol. Cymerodd aelodau hefyd ran mewn trafodaeth am y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Caiff ymgynghoriad ar y drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Disgwylwn ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn yr ymgynghoriad yng nghyswllt gwelliant i ddarparu gofynion tai Cynlluniau Datblygu Lleol.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Will Atkinson

✉ will-atkinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4815 | 07557 650386

🐦 @WillA_CHC

Themâu:

3.

Credyd Cynhwysol

Cafodd ymgyrch ddiwygiedig y pedair ffederasiwn ar lesiant ei lansio ym mis Chwefror. Daeth hyn â phob un o'r pedair ffederasiwn cymdeithasau tai yn y Deyrnas Unedig ynghyd i lobio dros y chwech peth allweddol y gofynnwn amdanynt, a gynlluniwyd ynghyd â'r Grwpiau Cyflenwi Strategol Llesiant. Gwnaed cynnydd ar dri o'r chwech hyn, gyda datblygiadau sylweddol tuag at rannu data dan ymfudiad a reolir i'r Credyd Cynhwysol a chyhoeddiadau am yr Adran Gwaith a Phensiynau am drwsio'r system taliadau uniongyrchol ar gyfer costau tai. Rydym hefyd yn hyderus y daw'r rhewi ar fudd-daliadau i ben ym mis Ebrill 2020.

Mae mwy o wybodaeth ar ddiben yr ymgyrch ar gael **yma**.

Mae CCC wedi cynrychioli aelodau ar y lefelau uchaf yn ystod y chwarter yma, yn cynnwys cyfarfodydd ar faterion a godwyd gennych, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau, Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru ar Dai a Llywodraeth Leol, a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Credyd Cynhwysol.

Rydym wedi parhau i gefnogi aelodau gyda materion gweithredol yn ymwneud â llesiant yn cynnwys: blwyddyn rhent 53 wythnos, newidiadau rhent mis Ebrill a thenantiaethau blêr.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Will Atkinson

✉ will-atkinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4815 | 07557 650386

🐦 @WillA_CHC

Themâu:

1.

3.

Tai â Chymorth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd dull gweithredu ar y cyd i ddatblygu eu canllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu ar draws Cymru a hwyluswyd gan CCC, Cymorth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cafodd aelodau cymdeithasau tai gyfle i fwydo'n uniongyrchol i feysydd allweddol y grant newydd, yn cynnwys nodau ac amcanion y grant yn ogystal â sut y gellir annog gweithio ar y cyd.

Bydd y Grant Cymorth Tai yn disodli'r Rhaglen Cefnogi Pobl a'r Grant Atal Digartrefedd ym mis Ebrill 2020. Bydd y **canllawiau presennol** ar gyfer Cefnogi Pobl yn ddilys ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.



Swyddog Polisi
Joe Frampton

✉ joe-frampton@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4806 | 07855 712833

🐦 @JoeFramptonCF

Themes:

1.

3.

Deddf Rhentu Cartrefi Cymru

Fe wnaethom baratoi **dogfennau Cwestiynau Cyffredin** ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i sicrhau fod aelodau'n cael gwybod am ddarpariaethau ac effaith bosibl y Ddeddf. Helpwch ni i gadw'r ddogfen hon yn fyw drwy rannu eich cwestiynau ac ymholiadau.

Er na chyhoeddwyd y dyddiad gweithredu eto, rydym yn parhau i'ch diweddarau ar gynnydd ac wedi creu grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o blith ein haelodau. Rydym hefyd wedi ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu dulliau gwell o gyfathrebu unrhyw ddatblygiadau newydd.

Fe wnaethom gynnal gweminar yn eich diweddarau ar gynnydd y Ddeddf ac wedi creu **cynllun gwaith** yn amlinellu meysydd blaenoriaeth ffocws ar gyfer y grŵp yn yr ychydig fisoedd nesaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â **Selina-Moyo@chcymru.org.uk**.



Swyddog Polisi
Selina Moyo

✉ selina-moyo@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4807 | 07341 730404

🐦 @Selina_CHC

Themes:

1.

3.

Diogelwch Adeiladau

Mae diogelwch adeiladau a thenantiaid yn parhau i fod yn faes polisi blaenoriaeth, gyda CCC yn cefnogi llunio rheoliad a deddfwriaeth y dyfodol drwy Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladu Llywodraeth Cymru.

Rydym yn falch iawn i lansio cynllun Prif Awdurdod Tân partneriaeth cydlynol ar gyfer ein haelodau, fel rhan o'r cynnig newydd i aelodau ar gyfer 2019. Bydd y gwasanaeth hwn, y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, yn gwella cysondeb yn y cyngor diogelwch tân a gaiff ein haelodau. Aiff y cynllun yn fyw yn y Gwanwyn 2019, gydag aelodau'n medru cofrestru nawr drwy lenwi ffurflen ymuno, y gallaf ei hanfon atoch os na chawsoch hi'n barod. Mae'r holl wybodaeth ar gael yn y llawlyfr, fydd ar gael ar-lein yn y dyfodol agos. Cadwch eich llygaid ar agor!

I hyrwyddo ein hymrwymiad i ddiogelwch preswylwyr, rydym wedi dechrau gwaith ar gynnig tryloywder diogelwch gwirfoddol i atodi ein Cod Llywodraethiant. Byddwn yn gweithio gydag aelodau a Llywodraeth Cymru ddatblygu'r cynnig hwn drwy gydol y flwyddyn.



Swyddog Polisi
Sarah Scotcher

✉ sarah-scotcher@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4802 | 07469 147485

🐦 @Sarah_CHC

Crynodeb cynadleddau a chynadleddau ar y gweill

Cynhadledd Cyfathrebu

Daeth rhaglen cynadleddau 2018/2019 i ben gyda'r nifer fwyaf erioed o gynrychiolwyr yn y Gynhadledd Cyfathrebu a hefyd y Gynhadledd Llywodraethiant.

Cynhaliwyd y Gynhadledd Cyfathrebu ar 24 Ionawr yng Ngwesty Village, Abertawe. Cafodd y gynhadledd ei chadeirio'n wych gan Rhian Moore, Pennaeth Cyfathrebu Mewnol Great Western Railway. Dechreuodd y diwrnod gyda sgwrs heriol gan Nigel Temple a ysbrydolodd gynrychiolwyr i feddwl yn wahanol yn eu hymagweddau creadigol. Yna aeth arbenigwyr yn amrywio o swyddogion cyfathrebu argyfwng a phodledwyr i ddewiniaid brand â phobl drwy sesiynau ymarferol i'w helpu i gynyddu eu gêm ar gyfathrebu dydd i ddydd. Treuliodd cynrychiolwyr ran o'r diwrnod yn creu ffilmau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, oedd yn cynnwys gwisgo lan a chreu llinellau stori creadigol iawn. Daeth y diwrnod i ben gyda Helen Reynolds, arbenigydd ar y cyfryngau cymdeithasol, a roddodd gyngor i'r cynrychiolwyr ar sut i ddangos eu gwerth yn fewno

Yr hyn ddywedodd ein cynrychiolwyr

- "Gwaith gwych gan y tîm - sylw rhagorol i fanylion, gwerthfawrogi'n fawr. Llauer o bethau cadarnhaol. Diolch."
- "Fe wnes ei fwynhau'n fawr a dysgu llawer yn ogystal â gwneud ffwl ohonof fy hun oedd yn hwyl. Diolch!"
- "Rwyf wedi bod mewn llawer o gynadleddau cyfathrebu CCC dros y blyneddau ac mae pob un yn well na'r ddiwethaf. Siaradwyr gwych, gweithdai a chyfleoedd i rwydweithio gyda chydweithwyr hen a newydd bob amser."

Beth sydd nesaf?

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n rhagorol ar gynllunio calendr digwyddiadau 2019/2020 a gobeithiwn eich gweld yn ein digwyddiadau yn cynnwys ein cynhadledd Cyllid a'r gynhadledd Carbon Isel ym mis Gorffennaf. Mae manylion ar gael **yma**.

Diolch yn fawr!

Hoffai'r tîm Datblygu Busnes ddiolch yn fawr i bob cynrychiolydd, siaradwr, noddwr ac arddangoswr a wnaeth ein digwyddiadau mor lwyddiannus.

Cynhadledd Llywodraethiant

Fe wnaethom wrando ar ein cynrychiolwyr a symud i westy Cyrchfan y Fro, cartref tîm rygbi Cymru. Nid ydym yn siŵr os mai'r rhaglen gyffrous neu'r cyfle i gael hunlun gyda un o'r sêr rygbi a ddenodd y nifer uchaf eto o bobl i'r digwyddiad!

Treuliodd cynrychiolwyr ran sylweddol o'r gynhadledd mewn gweithdai ymarferol oedd yn anelu i roi'r dulliau iddynt i lywodraethu'n dda. Roedd sesiynau prif siaradwyr yn cynnwys trawsnewid digidol, ymddiriedaeth a thryloywder ac arweinyddiaeth, gan ddangos rôl y bwrdd wrth gyflawni gweledigaeth sefydliadau.

Bu cynrychiolwyr hefyd mewn sesiynau blasu ar ein rhaglen hyfforddiant newydd ar Lywodraethiant. Mae manylion hyfforddiant llawn a sut i archebu ar gael ar ein gwefan. **Cliciwch yma** i'w gweld.

Yr hyn a ddywedodd ein cynrychiolwyr

- "Rwyf wedi dysgu o bob cynhadledd llywodraethiant a hon oedd yr orau eto yn nhermau trafndiaeth, lleoliad, dewis da o weithdai a chyfleoedd rhwydweithio."
- "Roedd cynhadledd eleni yn dangos pwysigrwydd cadw'n gydwestad gyda llywodraethiant. Mae'n faes cynyddol bwysig a chymhleth. Mae'r gynhadledd yn rhoi cyfle pwysig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn sy'n digwydd tu mewn a hefyd tu allan i'r sector. Cynhadledd wych - diolch yn fawr."



Swyddog Digwyddiadau a Busnes
Rhian Robinson

✉ rhian-robinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4814

🐦 @CHCEvents

Themes:

1.

3.

Hyfforddiant Llywodraethiant

Mae ein pecyn hyfforddiant llywodraethiant newydd yn cynnwys pump cwrs, i gyd wedi'u targedu ar wahanol lefelau.

Yn cael eu rhedeg gan yr hyfforddwr arbenigol, Deborah Walthorne, cafodd cysiau eu teilwra i weddu i wahanol setiau sgiliau a lefelau profiad.

Mae 'Cyflwyniad i Lywodraethiant' ar gyfer darpar aelodau bwrdd ac mae'r sesiwn 'Newydd i'r Bwrdd' yn rhoi gwybodaeth bellach i aelodau bwrdd a fu yn eu swyddi am lai na 12 mis i hybu eu sgiliau. Yn olaf ar gyfer rhai a fu yn eu swyddi ychydig yn fwy, mae 'Llywodraethu'n Dda' yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynrychiolwyr i'w helpu i fynd i'r lefel nesaf fel aelodau bwrdd.

Mae gwybodaeth ar yr holl gyrsiau hyn ar gael **yma**.

Cyflwynir y ddau gwrs arall, gan HQN, yn uniongyrchol i fyrddau unigol ac maent yn golygu llawer iawn o waith paratoi i sicrhau y caiff gweithdai eu teilwra i weddu i sefydliadau.

Mae Gafael Hearn yn darparu'r bwrdd i gynnal profion straen ar eu cynlluniau busnes tra bod Gallu Sboncio'n Ôl yn rhoi cyngor y fyrddau am sut i baratoi ar gyfer a thrin argyfwng.

I gael mwy o wybodaeth ar gynnwys pob cwrs a dyddiadau cysylltwch â **Lesley-Smith@chcymru.org.uk**.



Swyddog Dysgu a Datblygu
Lesley Smith

✉ lesley-smith@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4809 | 07870 946421

🐦 @Lesley_CHC

Themes:

1.

4.

Swyddi Tai Cymru

Lansiwyd **Swyddi Tai Cymru** ar 18 Mawrth ac mae'n bartneriaeth rhwng Charity Job Finder a Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'n ddatblygiad cyffrous iawn gan mai dyma'r unig wefan yng Nghymru sy'n neilltuo ar gyfer hysbysebu swyddi tai cymdeithasol i annog sgiliau newydd a phrofiad i'r sector.

Cawsom ddechrau gwirioneddol lwyddiannus i'r wefan, gan ddenu dros 4000 o ddefnyddwyr eisoes. Mae llawer o aelodau wedi manteisio ar ein cynnig i hysbysebu eu swyddi am ddim tan 8 Mai. Mae mwy o wybodaeth ar hyn ar gael **yma**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost **Edwina-O'Hart@chcymru.org.uk**.



Cyfarwyddyd Cynorthwyol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Themes:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Diweddariadau gwybodaeth aelodau

Gyda'n system CRM ddiweddaraf a phhecyn marchnata integredig, rydym yn awr yn gallu gwybodaeth fwy perthnasol i chi. Ar bob gohebiaeth a gewch, bydd opsiwn i ddiweddarau eich dewisiadau felly os mai dim ond am gynadleddau a chyfleoedd hyfforddiant y dymunwch dderbyn gwybodaeth, gallwch ddweud hynny wrthym drwy glicio ychydig o fotymau.

Rydym bob amser yn ceisio cadw ein cronfa ddata mor gyfoes ag sydd modd ac i sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth i'r bobl sydd ei angen. Ond rydym angen eich help - os oes gennych gydweithiwr neu aelod o'r tîm y credwch all fod â diddordeb mewn ymuno â'n rhestr postio ar gyfer unrhyw un o'n Grwpiau Cyflenwi Strategol neu ein Crynodeb Wythnosol, cysylltwch Julia ar Julia-Sorribes@chcymru.org.uk.



Cyfarwyddydd Cynorthwyol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Themes:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Cynllun Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019-22 yn fyw erbyn hyn ac yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau y gwnaethoch ddweud wrthym sy'n bwysig i chi. Bydd ein ffocws ar ddylanwadu ar eich amgylchedd, dweud stori'r sector, darparu gwasanaethau rhagorol i aelodau, sicrhau eich bod yn barod ar gyfer y dyfodol a rhedeg sefydliad gwych i aelodau.

Pam fod hyn yn bwysig? Edrychwch ar ein ffilm **yma** - diolch i'n haelodau am gymryd rhan.

Medrir gweld y ddogfen lawn **yma**.

Byddwn yn eich hysbysu ar y cynnydd a wnawn ar eich rhan drwy'r adroddiadau cynnydd.



Cyfarwyddydd Cynorthwyol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Themes:



Cael y budd mwyaf o'ch aelodaeth yn 2019/20

Ydych chi'n cael y budd mwyaf o'ch aelodaeth o CCC? Wyddoch chi am yr holl fuddion gwyb sydd ar gael? Yn ogystal â dulliau ac adnoddau, byddwch yn cael llwyfan i gael eich llais wedi'i glywed a rhwydwaith cryf a chefnogol i'ch helpu i wneud eich gwaith hyd yn well.

Beth bynnag yw'ch swydd - mae rhywbeth i chi **yma**.



Cyfarwyddyd Cynorthwyol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Themes:



Pwy yw pwy yn CCC?

Rydym wedi diweddarau ein dogfen Pwy yw Pwy **yma**. Mae hyn yn cynnwys meysydd gwaith a manylion cyswllt staff.

Rydym yn griw cyfeillgar - cysylltwch â ni!



Cyfarwyddyd Cynorthwyol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Themes:

4.

Edrych i'r dyfodol - dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur

Mae ein dyddiadur cyfarfodydd a digwyddiadau yn llawn dop ar gyfer 2019/20.

Diweddarwch eich dyddiadur nawr fel nad ydych yn colli dim. Mae'r dyddiadau yn cynnwys ein rhaglen cynadleddau, cyfarfodydd rheolaidd y grwpiau strategol a'n digwyddiadau rhwydweithio arweinyddiaeth ar gyfer aelodau bwrdd a phrif weithredwyr.

Gellir gweld y dyddiadur llawn **yma**.



Cyfarwyddyd Cynorthwyl, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@hcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Themes:

4.

Cyfathrebu

Bu'n chwarter prysur i dîm cyfathrebu CCC. O gynnal cynhadledd cyfathrebu wirioneddol lwyddiannus i lansio Swyddi Tai Cymru - gwefan swyddi tai cymdeithasol gyntaf Cymru - cawsom dri mis gwirioneddol werth chweil a chyffrous!

Fel bob amser rydym wedi parhau i ddylanwadu ar yr agenda newyddion yn ystod y tri mis diwethaf, gan gael 30 darn o sylw ar draws cyfryngau targed print, darlledu ac ar-lein ar bynciau yn cynnwys y Credyd Cynhwysol, y setliad rhent a thlodi tanwydd. Gallwch ddarllen ein hadroddiad cyfryngau diweddaraf **yma**.

Mae gwaith yn parhau ar ein hymgyrch gyffrous gyda Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol i ddenu mwy o bobl i'r sector. Rydym yng nghampau cyntaf datblygu ond byddwn mewn sefyllfa i rannu gwybodaeth yn y dyfodol agos.

Rydym wedi bod yn dweud stori ein sector, a byddwn yn parhau i wneud hynny, drwy ein blog a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rydym bob amser yn edrych am straeon newydd i'w dweud felly cysylltwch â Catrin Harries, ein Swyddog Cyfryngau a Chyfathrebu ar **catrin-harries@hcymru.org.uk**.

Rydym hefyd wedi cyfweld â nifer o bobl wych ar gyfer ein podlediad Trafod Tai, yn cynnwys Cerys Furlong a Serena Jones ar 'menywod mewn tai' a Grace Blakeley ar 'Brexit a'r economi'. Gallwch wrando ar ein holl benodau **yma**.

Peidiwch anghofio tanysgrifio!



Rheolydd Cyfathrebu a Marchnata
Rebecca Goodhand

✉ rebecca-goodhand@hcymru.org.uk

☎ 029 2067 4804

🐦 @RebeccaG_CHC

Themes:

4.

Diweddariad staffio

Gwelodd y chwarter diwethaf lawer o newidiadau o fewn y tîm staff.

Rydym wedi penodi Swyddog Creadigol Dylunio a Brand - **Joshua Rousen** - i olynu **Chris Lamb** a bydd yn ymuno â ni ym mis Mai.

Mae **Hugh Russell**, un o'n Swyddogion Polisi a fu ar secondiad gyda Llamau ers mis Ionawr 2018, wedi gadael CCC i barhau ei waith ar y prosiect Digartefedd leuenctid. Cafodd ei swydd ei llenwi gan Joe Frampton sydd ar secondiad o Linc a ddaw i ben ym mis Ebrill.

Mae **Bori Martos**, ein Swyddog Cymorth Gweithredol wedi dychwelyd o gyfnod mamolaeth ac yn gweithio'n rhan-amser ar ddyddiau Llun-Mercher.

Bydd **Georgina Shackell Green**, ein Cymhorthydd Materion Cyhoeddus ac **Adele Harries Nicholas**, ein Rheolydd Gwasanaethau Aelodau a Datblygu Busnes ill dwy yn gadael y mis hwn ac rydym yn recriwtio ar gyfer olynydd Adele ar hyn o bryd.

Cliciwch yma i weld pwy yw pwy yn CCC ac ar ba feysydd mae staff yn arwain.



Cyfarwyddyd Adnoddau a Datblygu Sefydliadol
Philippa Knowles

✉ phillipa-knowles@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4813 | 07876 240198

🐦 @philchcymru

Tan y chwarter nesa'.

Fel y gwelwch, bu'n dri mis prysur i'r tîm yn CCC.

Bydd gweddill 2019 yn ein gweld yn cyflawni gweithgareddau a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol a Chynnig i Aelodau newydd. Byddwn yn parhau i'ch hysbysu ar ein cynnydd ar eich rhan bob chwarter. Gallwch ddisgwyl ein hadroddiad nesaf yn gynnar ym mis Gorffennaf 2019.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â'r aelod perthnasol o staff yn CCC os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Cysylltwch â ni.



chcymru.org.uk



twitter.com/CHCymru



enquiries@chcymru.org.uk



02920 674800